

Oes gennych  
chi ddiddordeb  
mewn addysg?

## Rhowch eich barn am gymwysterau'r dyfodol.

### Mae Cymwysterau Cymru eisiau eich barn chi ar sut y dylai cymwysterau newid i gefnogi dysgwyr fydd yn dilyn y cwricwlwm newydd.

O 2022, mae addysg yng Nghymru yn newid. Mae cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol. Mae'r dysgwyr cyntaf a fydd yn dilyn y cwricwlwm newydd ym Mlwyddyn 5 ar hyn o bryd (9 a 10 mlwydd oed).

Mae Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar y dewis o gymwysterau a ddylai fod ar gael i'r dysgwyr hynny eu sefyll yn 2027 pan fyddant yn 16 oed.

Rydyn ni wedi gweithio gydag arbenigwyr addysg i feddwl am syniadau am yr hyn y dylai'r dewis o gymwysterau ei gynnwys. Nawr, rydyn ni am brofi'r syniadau hynny a gweld beth yw eich barn chi.

Rydyn ni am glywed gan athrawon, rhieni, gofawlyr, cyflogwyr ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn addysg pobl ifanc.

Rydyn ni hefyd yn credu y dylai rhai pynciau TGAU barhau, ond gyda chynnwys ac asesiadau newydd.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn canolbwyntio ar y dewis o bynciau a chymwysterau a ddylai fod ar gael i ddysgwyr a fydd wedi dilyn y cwricwlwm newydd. Byddwn yn edrych ar gynnwys ac asesiad penodol cymwysterau unigol yn ddiweddarach yn seiliedig ar ymchwil a chan weithio gydag athrawon, dysgwyr a chyrrff dyfarnu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd newydd a gwahanol o wneud pethau a dysgu o'r profiad o addasu i'r pandemig.

#### Mae rhai o'n syniadau'n cynnwys:

TGAU mewn Astudiaethau  
Cymdeithasol ac mewn Peirianeg

TGAU cyfun ar gyfer  
Mathemateg a Rhifedd,  
Cymraeg a Saesneg

Cymwysterau byr fydd yn canolbwyntio  
ar sgiliau ymarferol mewn rhifedd,  
Cymraeg ac ieithoedd rhyngwladol

Rydyn ni'n gwybod ei fod yn gyfnod eithriadol o brysur a heriol i bawb. Fel y rheoleiddiwr, mae'n rhaid i ni gymryd golwg tymor hwy ar bethau a chynllunio ymlaen llaw. Rydyn ni'n ymgynghori nawr fel y gall pawb ddweud eu dweud ar y penderfyniadau pwysig hyn a rhoi digon o amser i ysgolion a dysgwyr baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau.

Mae ein cynigion yn cynnig darlun i ddysgwyr, ysgolion a cholegau o sut y gallai'r prif gymwysterau yng Nghymru edrych yn y dyfodol. Mae'r Senedd wrthi'n ystyried deddfwriaeth ddrafft a fydd yn gweithredu'r Cwricwlwm newydd. Fel rheoleiddiwr annibynnol Cymru rydyn ni am greu dadl fywiog am yr hyn y gallai ei olygu i gymwysterau'r dyfodol.

Er mwyn ei gwneud hi'n haws i chi ddweud wrthym beth sydd bwysicaf i chi rydyn ni wedi grwpio ein cynigion yn unol â chwe phrif faes y cwricwlwm:



Mae manylion llawn yr ymgynghoriad, gan gynnwys fersiwn gryno, ar [wefan Cymwysterau Cymru](#).

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg am 10 wythnos a bydd yn dod i ben ar 9 Ebrill.